

Aseiniad ECAD7004/6010 2023/24

Adran	Cyfrif geiriau awgrymedig (Cyfanswm 4500)
Nod, ffocws a phwrpas yr ymchwil / Cyd-destun Ymchwil Beth oedd pwrpas/nod eich ymchwil? Beth oedd y mater yr oeddech am fynd i'r afael â hi yn eich ymchwil? Pam roedd gennych chi ddiddordeb yn hyn? Sut mae'n cysylltu â'ch adfyfyriadau yn eich PDP? Rhowch wybodaeth cryno am gyd-destun yr ysgol y cynhaliwyd yr ymchwil ynddi. (Mae angen i chi roi gwybodaeth dim ond os yw'n berthnasol i'r cwestiwn ymchwil. Er enghraifft, nid oes angen rhoi manylion canran y disgyblion sydd ag ADY / Prydiau am ddim os nad yw hyn yn berthnasol i'ch pwnc ymchwil.) Rhowch wybodaeth cryno am gyd-destun y dosbarth y cynhaliwyd eich ymchwil ynddi. Beth oedd eich cwestiwn ymchwil?	300
Trosolwg o lenyddiaeth berthnasol Dylai'r adran hon fod yn seiliedig ar eich pwnc ymchwil. Dylai gynnwys trafodaeth ar lenyddiaeth allweddol sy'n ymwneud â'ch cwestiwn astudio / ymchwil. Cofiwch: - Grynhoi a syntheseiddio: rhowch drosolwg o brif bwyntiau pob ffynhonnell a'u cyfuno'n gyfanwaith cydlynol; - Ddadansoddi a dehongli: peidiwch ag aralleirio ymchwilwyr eraill yn unig. Os yw'n bosibl, trafodwch arwyddocâd y canfyddiadau mewn perthynas â'r llenyddiaeth gyfan; - Werthuso'n feirniadol: sôn am gryfderau a gwendidau eich ffynonellau, ystyriwch yr awdur(on) a'u harbenigedd; - Ysgrifennu mewn paragraffau strwythuredig: defnyddiwch bontio a brawddegau pwnc i dynnu cysylltiadau, cymariaethau a chyferbyniadau. Beth yw perthnasedd y llenyddiaeth i'ch astudiaeth eich hun? Sut arweiniodd y llenyddiaeth atoch i ffurfio'ch cwestiwn ymchwil? Oeddech chi'n gobeithio llenwi bwlch yn y llenyddiaeth bresennol? Oeddech chi'n mynd ag ymchwil awdur arall ymhellach o fewn eich cyd-destun ysgol/dosbarth?	800

Trafodaeth y dyluniad ymchwil: Astudiaeth Achos Cyfeiriwch at lenyddiaeth berthnasol i esbonio pwrpas defnyddio dull Astudio Achos. Beth yw ymchwil Astudiaeth Achos? Beth yw ei gryfderau a'i gyfyngiadau mewn perthynas â'ch cwestiwn ymchwil? Trafodwch eich 'achos' - pwy fydd y cyfranogwyr yn eich astudiaeth achos? Os yw'n berthnasol, trafodwch y dull yr oeddech yn ei ddefnyddio i sicrhau sampl cynrychioliadol.	500
Bod yn foesebol Esboniwch unrhyw ystyriaethau moesebol sy'n berthnasol i'ch astudiaeth. Rhaid i chi drafod sefyllfaoldeb (positionality), h.y. y berthynas athro/disgybl. Dylech gynnwys gwybodaeth am anhysbysrwydd a chyfrinachedd. Rhaid i chi drafod y broses a gyflawnir er mwyn cael cydsyniad disgyblion. Cofiwch gyfeirio'n benodol at eich Ffurflen Foesebol, y byddwch yn ei chynnwys yn eich atodiadau.	300
Dulliau ymchwil Ysgrifennwch am y dulliau ymchwil y dewisoch chi i roi'r data i chi er mwyn ateb eich cwestiwn ymchwil. Wnaethoch chi geisio ateb eich cwestiwn mewn geiriau, rhifau neu'r ddau?; e.e. arsylwi, cyfweliad, holiadur, dull arall. Ar gyfer pob dull, trafodwch y pwyntiau hyn sy'n cyfiawnhau'r dewisiadau a wnaethoch: • Beth mae'r llenyddiaeth ymchwil yn ei ddweud wrthon ni am y dull? • Beth yw cryfderau a chyfyngiadau'r dull? Esboniwch eich taflen arsylwi / cwestiynau cyfweld / cwestiynau holiadur / dull arall. Ydych chi wedi defnyddio strwythur penodol? (cwestiynau caeedig neu agored, blychau tic ac ati); Graddfa benodol? (e.e. Leuven) Trafodwch unrhyw wybodaeth a gafodd effaith ar y dull ymchwil, e.e. oedran neu gyrhaeddiad disgyblion. Dylech gyfeirio'n ôl at y llenyddiaeth lle bynnag y bo modd. Cofiwch gyfeirio at eich offer ymchwil, y dylech eu labelu'n unigol (Atodiad 1, Atodiad 2 ac ati) a chynnwys y rhain fel un ddogfen yn eich atodiadau.	1000

Dull(iau) Cyflwyno a Dadansoddi Data Dylech gynnwys gwybodaeth am unrhyw brosesau a gynhaliwyd gennych i sicrhau dibynadwyedd (hygrededd, trosglwyddiadadwyedd, dibynadwyedd a chadarnhad) os yw'n berthnasol. Esboniwch y dull(au) rydych chi wedi'i ddefnyddio i gyflwyno'ch data. Cyfeiriwch at lenyddiaeth berthnasol i gefnogi eich penderfyniadau.	400
Canlyniadau / Dadansoddiad o ganlyniadau / Discussion Bydd cynnwys yr adran hon yn dibynnu ar y dulliau ymchwil rydych chi wedi'u defnyddio. Unwaith y byddwch chi wedi cyflwyno'r data a'i drafod, dylech ystyried: Beth mae'r data yn ei olygu? Beth gawsoch chi wybod? • Beth mae hynny'n ei olygu i'ch dosbarth/y cyfranogwyr/yr ysgol? • Sut mae hyn yn cysylltu â llenyddiaeth? DS Ni ddylech deimlo bod yn rhaid i chi rhoi 'ateb' i'ch cwestiwn ymchwil.	700
Casgliadau - Adfyfrio Archwilio'r gwaith a wnaethoch yn feirniadol wrth baratoi ar gyfer eich astudiaeth ymchwil; er enghraifft: • A oedd y dulliau o gasglu data'n ddibynadwy o fewn eich cyd-destun? • Pa mor ddilys oedd y dulliau? • A fyddai'r canfyddiadau'n gallu cael eu cyffredinoli? (Gallech uno'r Casgliadau gyda'r adran Argymhellion os yw'n well gennych.)	300
Argymhellion - Gweithredu Pa argymhellion fydddech chi'n eu gwneud yn sgil eich ymchwil? A oes ymyrraeth yr hoffech ei roi ar waith yn PAP2 i fynd i'r afael â mater rydych chi wedi'i ganfod? Sut gallai eich canfyddiadau gael eu symud ymlaen i lywio ymchwil pellach?	200
Rhestr Gyfeirio	
Atodiadau Rhaid i'r rhain gynnwys: • Unrhyw offer ymchwil a grëwyd gennych, e.e. Taflen Arsylwi, Cwestiynau Cyfweliad, Holiadur, manylion unrhyw ddull ymchwil arall. • Ffurflen Foeseg • Llythyr caniatâd rhieni gwag a manylion y dull a ddefnyddir er mwyn ennill cydsyniad disgyblion	

Gall y rhain gynnwys:

- Cynllun Gwers (os yn berthnasol)
- Unrhyw beth arall rydych chi'n meddwl fyddai'n ddefnyddiol er mwyn i'r darllenydd ddeall eich astudiaeth ymchwil yn llawn.

Ar Lefel 7, dylech anelu at ysgrifennu'r rhan fwyaf neu'r cyfan o'ch traethawd **yn y trydydd person** ac yn **y llais goddefol**.

Wrth fyfyrio ar eich ymarfer neu'ch profiad eich hun neu wrth esbonio rhesymau dros eich dewisiadau o ran, er enghraifft, eich cwestiwn ymchwil, mae'n bosib' ysgrifennu **yn y person cyntaf** os byddai'n well gennych wneud hynny

.
Dylid ysgrifennu'r traethawd yn yr **amser gorffennol**.

Ar Lefel 7, nid yw dyfynnu geiriau y mae darlithwyr prifysgol wedi eu dweud mewn darlith yn briodol.

DS Gofalwch nad ydych yn llên-ladrata'ch gwaith eich hun o aseiniadau eraill. Os byddwch yn penderfynu cyfeirio at awduron eich bod wedi ysgrifennu amdanyn nhw o'r blaen mewn aseiniad arall, bydd angen aralleirio'ch geiriau eich hun i sicrhau nad ydych yn hunan-ladrata.